

**PWYLLGOR CRAFFU IECHYD A GWASANAETHAU
CYMDEITHASOL**

DYDD MERCHER, 7 MEHEFIN 2023

PRESENNOL Cyngorydd H.A.L. Evans (Cadeirydd)

Cynghorwyr (Yn y Siambr):

B. Davies P. Hughes-Griffiths (yn lle H. Jones) M. James

Cynghorwyr (Yn rhithwir):

B.A.L. Roberts K.V. Broom (yn lle K. Davies) R.E. Evans M. Donoghue
A. Evans J.P. Jenkins D. Owen F. Walters
P.T. Warlow J. Williams

Cynghorwyr sydd hefyd yn bresennol (yn y siambr):

A. Lenny, Aelod Cabinet dros Adnoddau
J. Tremlett, Aelod Cabinet dros Iechyd Gwasanaethau Cymdeithasol

Hefyd yn bresennol (Yn y Siambr):

J. Morgan, Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymunedau
A. Williams, Pennaeth Y Gwasanaethau Integredig
J. Coles, Pennaeth Plant a Theuluoedd
J. Jones, Uwch Reolwr Cyflawni
A. Eynon, Prif Gyfieithydd
S. Hendy, Swyddog Cefnogi Aelodau
E. Bryer, Swyddog Gwasanaethau Democrataidd

Hefyd yn bresennol (Yn rhithwyr):

R. Page, Uwch Reolwr Cymorth Busnes
M. Runeckles, Swyddog Cefnogi Aelodau

YN Y SIAMBR - NEUADD Y SIR, CAERFYRDDIN. AC O BELL - 10.00 - 11.35 yb

1. YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan y Cynghorwyr K. Davies a H. Jones.

**2. DATGANIADAU O FUDDIANNAU PERSONOL GAN GYNNWYS UNRHYW
CHWIPIAU PLEIDIAU A RODDIR MEWN YMATEB I UNRHYW EITEM AR YR
AGENDA**

Ni chafwyd dim datganiadau ynghylch buddiannau personol na chwip waharddedig.

3. CWESTIYNAU GAN Y CYHOEDD (NID OEDD DIM WEDI DOD I LAW)

Dywedodd y Cadeirydd nad oedd dim cwestiynau wedi dod i law gan y cyhoedd.
Sylwer: Mae'r cofnodion hyn yn amodol ar gael eu cadarnhau yn y cyfarfod nesaf

4. SYSTEM IECHYD A GOFAL I ORLLEWIN CYMRU: PA MOR BELL, PA MOR GYFLYM?

Bu'r Pwyllgor yn ystyried adroddiad oedd yn manylu ar y cyfleoedd yn Sir Gaerfyrddin i ddatblygu a gweithredu system iechyd a gofal ar gyfer pobl hŷn ar sail 'yr hyn sy'n bwysig' i'r boblogaeth hon ac a fyddai'n addas at y diben yn awr ac yn y dyfodol.

Croesawodd y Pwyllgor Rhian Matthews (Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda/CSG – Cyfarwyddwr System Integredig) i'r cyfarfod. Rhoddodd y Cyfarwyddwr System Integredig fanylion i'r Pwyllgor am gyflwr presennol y system gofal iechyd a gofal cymdeithasol a'r heriau. Nodwyd bod anghydbwysedd o ran y galw a'r capasiti sy'n ymwneud â rheoli anghenion y boblogaeth pobl hŷn. Roedd y boblogaeth fregus ac oedrannus yng Ngorllewin Cymru yn tyfu tua 3% y flwyddyn a byddai'n parhau i dyfu am o leiaf 10 mlynedd. Byddai'r sefyllfa bresennol yn gwaethygu'n sylweddol heb newid a thrawsnewid.

Cydnabuwyd bod aros yn yr ysbyty am y rhai sy'n ddifrifol fregus yn golygu eu bod yn agored i niwed a chanlyniadau gwael gan gynnwys haint, risg uwch o gwmpo yn ogystal â cholli cyhyrau a dirywiad mewn lefelau annibyniaeth blaenorol. Roedd hyn yn ei dro yn cynyddu'r angen am ofal a chymorth ar ôl eu rhyddhau gan gynyddu'r galw ar y lefel gyfyngedig o ofal cymdeithasol sydd ar gael. Yn ogystal, mae cyfraddau rhyddhau gwael yn peryglu gallu'r Adrannau Achosion Brys i dderbyn cleifion sy'n cyrraedd mewn ambiwlans, gan arwain at oedi o ran trosglwyddo cleifion o ambiwlansys.

Nododd y Pwyllgor fod Cytundeb Adran 33 rhwng Cyngor Sir Gaerfyrddin a Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda a oedd yn cefnogi strwythur rheoli integredig ar draws iechyd cymunedol a gofal cymdeithasol i oedolion hŷn a datblygu llwybrau gofal integredig (Gartref yn Gyntaf) a oedd wedi dangos yn ystod y deuddeg mis diwethaf bod llai o angen gofal a chymorth ar gyfer elfen wedi'i thargedu o boblogaeth fregus a phobl oedrannus hyd at 85%.

Eglurodd y Cyfarwyddwr System Integredig fod y 'Gartref yn Gyntaf' yn ddull (nid gwasanaeth) a fabwysiadwyd gan dimau amlddisgyblaethol o weithwyr proffesiynol a oedd yn ymgorffori arfer gorau ar gyfer rheoli pobl fregus. Roedd yn cynnwys mynediad cyflym i ofal a thriniaeth ar gyfer anghenion iechyd aciwt o fewn cyfnod o 1 i 2 awr gan ddarparu dewis arall diogel yn lle ysbyty. Roedd hefyd yn darparu mynediad brys i ofal sylfaenol a darpariaeth ailalluogi o fewn cyfnod 8 – 72 awr i gefnogi pobl i dderbyn triniaeth ac i wella ar ôl anaf neu salwch.

Nodwyd bod Llesiant Delta yn darparu seilwaith digidol a monitro cleifion sy'n cael eu rheoli gartref drwy lwybr Delta Connect.

Nododd y Pwyllgor hefyd y manteision a'r trefniadau llywodraethu fel y manylir arnynt yn y cynllun.

Gofynnwyd nifer o gwestiynau ac roedd y prif faterion fel a ganlyn:

Sylwer: Mae'r cofnodion hyn yn amodol ar gael eu cadarnhau yn y cyfarfod nesaf

- Mewn ymateb i bryderon a fynegwyd y gallai rhai cleifion ofyn am lefel o gymorth a allai eu rhoi mewn perygl, dywedodd y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Integredig y byddai'r asesiad bob amser yn seiliedig ar yr hyn sy'n bwysig i'r unigolyn ond bod triniaethau gwahanol, y risgiau posibl a'r opsiynau amgen yn cael eu hystyried bob amser.
- Mewn ymateb i gwestiwn ynglŷn â model Tŷ Pili Pala, dywedwyd bod y canlyniadau'n well i'r rhai a arhosodd mewn ysbytai cymunedol ac y dylid cyflwyno model Tŷ Pili Pala mewn ysbytai cymunedol.
- Mynegwyd mai un o'r heriau mwyaf ar hyn o bryd oedd newid meddylfryd a diwylliant staff o ddull adweithiol i ataliol.
- Cydnabuwyd bod angen gwaith ychwanegol o ran hyrwyddo'r gwasanaeth Delta Connect. Dywedwyd bod y nifer sy'n manteisio ar y gwasanaeth yn uwch pan gafodd atgyfeiriadau eu gwneud gan weithwyr iechedd proffesiynol.
- Mynegwyd pryder ynghylch colli pecynnau gofal pan gafodd unigolion eu derbyn i'r ysbyty am fwy na phythefnos. Eglurodd y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Integredig fod unigolion yn colli pecynnau gofal yn ddiangen mewn rhai achosion a bod mesurau lliniaru yn cael eu rhoi ar waith gan gynnwys atgyfeiriadau i'r tîm Gofal Gartref yn Gyntaf o fewn 36 awr. Nodwyd hefyd y gallai pecynnau gofal newid yn aml pan oedd unigolion yn yr ysbyty am gyfnod o amser oherwydd problemau fel colli cyhyrau.
- Gofynnwyd i swyddogion a oedd adnoddau (staff) ar gael i weithredu'r pecynnau gofal oedd eu hangen. Mewn ymateb, dywedodd y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Integredig fod argaeledd gweithlu ar draws y system iechedd a gofal cymdeithasol yn broblem i'r DU gyfan, ond na fyddai ei ddull gwahanol yn cyfrannu at ddefnydd mwy effeithiol ac effeithlon o adnoddau. Yn ogystal, datblygwyd rolau mwy deniadol a pheccynnau gwobrwyo ac roedd nifer o rowndiau recriwtio llwyddiannus wedi arwain at gyflogi 20 o staff ychwanegol yn ddiweddar.

PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL gymeradwyo'r cynnig a'r cynllun lefel uchel i'r Cabinet.

5. DIWEDDARIAD PERFFORMIAD GOFAL CARTREF

Bu'r Pwyllgor yn ystyried adroddiad yr oedd wedi gofyn amdano yn ymwneud â'r pwysau presennol ar ofal cartref, a'r effaith yr oedd hyn yn ei chael ar ryddhau cleifion o ysbytai. Bwriad yr adroddiad oedd rhoi sicrwydd bod cleifion yn cael cefnogaeth ddiogel i adael yr ysbyty ac roedd yn amlinellu'r pwysau a sut roedd Cyngor Sir Caerfyrddin yn ymateb i'r pwysau hynny. Yr adroddiad oedd yr ail ddiweddariad yr oedd y Pwyllgor wedi'i gael a oedd yn cynnwys y data diweddaraf a gasglwyd ar 9 Mai 2023.

Amlygwyd bod tueddiadau'n sefydlogi a bod nifer o oriau a gomisiynwyd mewn perthynas â gofal cartref wedi'i sefydlogi. Er gwaethaf y gwelliannau, rhoddwyd gwybod i'r Pwyllgor y byddai hyn yn cael ei drin yn ofalus a bydd perfformiad yn cael ei fonitro'n agos yn ystod y misoedd nesaf.

Sylwer: Mae'r cofnodion hyn yn amodol ar gael eu cadarnhau yn y cyfarfod nesaf

PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL dderbyn yr adroddiad

6. ADRODDIAD MONITRO CYLLIDEB CYFALAF A REFENIW 2022/23

Bu'r Pwyllgor yn ystyried yr Adroddiad Monitro ynghylch y Gyllideb Refeniw a'r Gyllideb Gyfalaf ar gyfer y Gwasanaeth Iechyd a Gofal Cymdeithasol a oedd yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am y sefyllfa gyllidebol fel yr oedd ar 28 Chwefror 2023, mewn perthynas â blwyddyn ariannol 2022/23.

Roedd y Gwasanaethau Iechyd a Chymdeithasol yn rhagweld gorwariant o £6,920K ar y gyllideb refeniw ac amrywiad net o -£906K yn erbyn cyllideb gyfalaf a gymeradwywyd yn 2022/23. Y disgwyl oedd ar ddiwedd y flwyddyn y rhagwelwyd y byddai £1,338k o arbedion Rheolaethol yn erbyn targed o £1,603k yn cael eu cyflawni.

Dangosodd y prif amrywiadau ar gynlluniau cyfalaf amrywiant disgwylidig (£362k) yn erbyn cyllideb net o £1,761k ar brosiectau gofal cymdeithasol, ac amrywiad (£544k) yn erbyn cyllideb net prosiectau'r Gwasanaethau Plant o £975k.

Nodwyd mai'r disgwyl yw y byddai £1,338k o arbedion Rheolaethol yn erbyn targed o £1,603k yn cael ei gyflawni ar ddiwedd y flwyddyn.

Codwyd y cwestiynau/sylwadau canlynol wrth drafod yr adroddiad:

- Mewn ymateb i ymholiad ynglŷn â'r costau ychwanegol yn y Fframwaith Gofal Cartref yn sgil cefnogi darpariaeth wledig, dywedodd y Pennaeth Gwasanaethau Integredig fod hyn oherwydd costau cynyddol i gymell darparwyr gwasanaethau gofal cartref i weithio mewn ardaloedd mwy gwledig yn y Sir.
- Nodwyd nad oedd y Bwrdd Iechyd yn darparu cyllid tuag at gost cymorth arbenigol ar gyfer anghenion cymhleth (Gwasanaethau Dderbyn Gofal). Rhoddodd y Pennaeth Plant a Theuluoedd drosolwg o'r sefyllfa genedlaethol a lleol mewn perthynas â'r argyfwng presennol ynghylch capasiti lleoliadau, ynghyd â'r newid yn y galw am anghenion darpariaeth gwasanaethau iechyd meddwl ar gyfer pobl ifanc ar ôl y pandemig. Amlygwyd bod y galw yn newid yn barhaus a'i fod yn sefyllfa ansicr a bod darpariaeth grantiau Covid Llywodraeth Cymru wedi cuddio'r sefyllfa ariannol mewn blynyddoedd blaenorol ond yn awr roedd yr Awdurdod yn gorfod talu cost y galw ei hun.
- Mewn ymateb i ymholiad ynghylch y ddarpariaeth o wasanaethau dydd sy'n cael eu lleihau o'i gymharu â'r lefelau cyn y pandemig, dywedodd swyddogion nad gwasanaethau dydd oedd yr ateb gorau bob amser a bod cyfleoedd dydd yn cael eu cynnig. Ystyriwyd bod cyfleoedd dydd yn darparu gwell canlyniadau i unigolion ac yn aml maent yn fwy cost-ffeithiol. Cydnabuwyd nad cynnig gwasanaeth mewn adeiladau oedd yr ateb gorau bob amser.

PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL dderbyn yr adroddiad

Sylwer: Mae'r cofnodion hyn yn amodol ar gael eu cadarnhau yn y cyfarfod nesaf

7. EGLURHAD AM BEIDIO A CHYFLWYNO ADRODDIAD CRAFFU.

Cafodd y Pwyllgor eglurhad am beidio â chyflwyno'r adroddiad craffu canlynol: yn unfrydol.

- Strategaeth Gwasanaethau Cymdeithasol 10 mlynedd

PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL nodi'r eglurhad am beidio â chyflwyno'r adroddiad.

8. CYNLLUN WAITH Y PWYLLGOR CRAFFU IECHYD & GWASANAETHAU CYMDEITHASOL AR GYFER 2023/24

Bu'r Pwyllgor yn ystyried ei Flaengynllun Waith ar gyfer 2023/24 a baratowyd yn unol â Chyfansoddiad y Cyngor sy'n ei gwneud yn ofynnol i Bwyllgorau Craffu ddatblygu a chyhoeddi blaenraglen waith bob blwyddyn gan glustnodi materion ac adroddiadau sydd i'w hystyried mewn cyfarfodydd yn ystod blwyddyn y cyngor.

PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL gadarnhau'r Blaengynllun Gwaith ar gyfer y Pwyllgor Craffu Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ar gyfer 2023/24.

9. EITEMAU AR GYFER Y DYFODOL

PENDERFYNWYD nodi'r rhestr o eitemau ar gyfer y dyfodol a oedd i'w hystyried yn y cyfarfod nesaf ar 5 Gorffennaf 2023.

10. LLOFNODI YN GOFNOD CYWIR COFNODION Y CYFARFOD A GYNHALIWYD AR 17FED EBRILL, 2023

PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL lofnodi cofnodion cyfarfod y Pwyllgor oedd wedi ei gynnal ar 17 Ebrill 2023 gan eu bod yn gywir.

CHAIR

DATE

Sylwer: Mae'r cofnodion hyn yn amodol ar gael eu cadarnhau yn y cyfarfod nesaf